**Claire Homard**
Chief Officer (Education and Youth)
Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid)

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

I rieni pob disgybl yn y Dosbarth Meithrin

Date/Dyddiad Medi 2025
Ask for/Gofynner am Derbyniadau i Ysgolion Gynradd
Email / Ebost admissions@flintshire.gov.uk

Annwyl Riant

**Derbyniad i Dosbarth Derbyn – Medi 2026**

**A gafodd eich plentyn ei eni rhwng 1 Medi 2021 a 31 Awst 2022?**
**A fyddan nhw'n 4 oed erbyn 31 Awst, 2026?**
*Os felly, bydd cyfle i'ch plentyn ddechrau mewn dosbarth derbyn ym Medi 2026.*

**O 22 Medi 2025 , ymgeisiwch ar-lein**
https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/Admissions/Reception.aspx
Mae angen gwneud cais am le mewn dosbarth Derbyn hyd yn oed os yw eich plentyn wedi bod yn mynychu dosbarth Meithrin yn yr ysgol.
I'ch helpu â'ch penderfyniad bydd pob ysgol yn cynhyrchu prosbectws sy'n rhoi manylion llawn am yr ysgol.

'Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu 'Canllaw i Wasanaethau Addysg 2026' yn nodi'r weithdrefn dderbyn. 'Mae'r Canllaw i Wasanaethau Addysg 2026' a rhestr o'r holl ysgolion ar gael, ar gael ar ein gwefan - https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/Admissions/Useful-Documents.aspx

Mae'n bwysig eich bod yn darllen y 'Canllaw i Wasanaethau Addysg 2026' cyn llenwi'ch ffurflen dewis fel eich bod yn ymwybodol o'r meini prawf ar gyfer mwy o geisiadau na nifer o lleoedd sydd ar gael a pholisi cludiant Sir y Fflint.

Gweler yr amserlen ar gyfer derbyniadau i ysgolion gynradd isod:-

| Ffurflenni derbyniadau ar gael i rhieni | Cyfnod ystyriaeth i rieni | **Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni** | Cyfnod dyrannu lleoedd | Hysbysir rhieni erbyn: |
|---|---|---|---|---|
| 22/09/25 7yyb | 22/09/25 – 17/11/25 | **17/11/25** | 18/11/25 – 23/02/26 | 16/04/26 8yyb |

**Rhaid i bob cais ddod i law erbyn y dyddiad cau**.
Bydd ceisiadau hwyr yn cael sylw ar ôl y rhai a dderbynnir mewn pryd, felly mae'n bwysig eich bod yn anfon eich ceisiadau erbyn y dyddiad cau. Er bod modd cyflwyno cais ar-lein ar ôl y dyddiad cau, os ydych chi'n gwneud cais ar ôl diwedd y cyfnod dyrannu (23 Chwefror 2026) ni fydd eich cais yn cael ei brosesu tan ar ôl y dyddiad cynnig cenedlaethol (16 Ebrill 2026).

Yn gywir,

**Ruby Clarke – Derbyniadau Ysgolion Cynradd**